

EVANS, MORGAN ('Cynllo Maesyfed ' neu ' Cynllo Maelienydd '; 1777? - 1843), offeiriad a phrydydd

Enw: Morgan Evans
Ffugenw: Cynllo Maesyfed, Cynllo Maelienydd
Dyddiad geni: 1777?
Dyddiad marw: 1843
Rhiant: Mary Evans
Rhiant: David Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: offeiriad a phrydydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Rhiannon Francis Roberts

Ganwyd ym mhlwyf Llanrhystyd, Sir Aberteifi, o bosibl yn Rhyd-las, yn fab i David a Mary Evans (?). Addysgwyd ef yn ysgol Ystrad Meurig, a bu'n gurad Llanddeiniol yn yr un sir o 23 Medi 1804 hyd 22 Medi 1805 pan gafodd ficeriaeth Breideth a Chaslai yn Sir Benfro. Ar 4 Awst 1807 derbyniodd ficeriaeth Llangunllo, sir Faesyfed, ac o 15 Mehefin 1825 ymlaen daliai fywiolaethau Llanddewi'r Cwm a Llanfair ym Muallt yn ogystal. Bu farw yn Llanfair ym Muellt ddechrau 1843.

Ef ydoedd awdur *An Elegy on the Death of the Rev. John Jenkins, M.A., late vicar of Kerry* (Ludlow, 1830), a *The Cambrian Muse habited in English Costume* (Llandoverly, 1840). Iddo ef hefyd y priodolir *Awen-Gerdd Debygawl a Dynwardawl, ar destun-ymadrodd Teetotalaidd ...* (Llanymddyvri, 1839).

Awdur

Rhiannon Francis Roberts, (1923 - 1990)

Ffynonellau

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908), 133

Yr Haul, 1843, 67

Archifau LIGC: [NLW MS 1889E](#), [NLW MS 1918D](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733939](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Roberts, R. F., (1953). EVANS, MORGAN ('Cynllo Maesyfed ' neu ' Cynllo Maelienydd '; 1777? - 1843), offeiriad a phrydydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-MOR-1777>

Prifysgol Cymru

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government